



Cyfres newydd, rhif 14

Calan 2011



Pe bawn un o'r doethion
Gwnawn fy rhan ddi-goll;
Ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.

Annwyl ffrindiau,

Ac fe ddaeth y doethion â'u hanrhegion. Wyddon ni ddim faint o'r doethion ddaeth. Nid oes cyfeiriad at eu nifer yn yr ysgrythurau, er bod y carolau a'r cardiau Nadolig bob amser yn portreadu tri, yn union fel y chwedlau amrywiol a dyfodd o'u cwmpas. Y tebyg yw fod pobl wedi casglu mai tri oedd eu nifer am mai tair anrheg a gyflwynwyd i'r baban: aur, a thus, a myrr. Awgrymwyd ymhellach mai pwrpas yr aur oedd anrhydeddu ei frenhiniaeth, y thus i anrhydeddu ei dduwdod, a'r myrr i anrhydeddu ei ddyndod. Yn ôl traddodiad mae gweddillion y gwŷr doeth wedi'u rhoi i orwedd mewn cist aur uwchben yr allor yn Eglwys Gadeiriol Cwlen (Cologne), lle'r adroddir pob math o straeon dychmygol am y tri – gan gynnwys eu henwau, eu hil, eu hoed, a lle buont farw.

Ond nid nifer y doethion a'u hanrhegion sydd o bwys; dygasant roddion. Rhaid i ninnau hefyd y Nadolig hwn ddwyn ein rhoddion at y Baban – yr hyn a feddwn, sy'n cyfateb i'r aur a'r thus a'r myrr. Ond gadewch i ni efelychu'r doethion hyd yn oed yn fwy na hynny. Gadewch i ni ddwyn ein hunain, oherwydd dyna fyddai'r Iesu yn ei ddymuno. Ie, ar bob cyfrif, gadewch i ni ddod â'n rhoddion materol, ein cyfoeth a'n pethau gwerthfawr, ond gadewch i ni ddod â'n calonnau a'n ffydd hefyd. Dod â'n hunain – ein talentau; ein personoliaethau; ein gweithgarwch; ein sgiliau; y cyfan oll a feddwn. Roedd y doethion yn bobl ddysgedig, yn astrolegwyr o fri. Daethant â'u holl wybodaeth a'u medrusrwydd at y preseb ac addolasant Ef. Fel y bugeiliaid o'u blaen, rhoddasant eu hunain yn gyfangwbl i'r Meseia. Nid yw Duw yn disgwyl llai gan wŷr a gwragedd doeth ein byd a'n cyfnod heddiw.

Wrth gwrs, rhodd o natur wahanol gafwyd gan Herod. Anfonodd filwyr i lofruddio pob plentyn gwryw ym Methlehem oedd yn ddwy flwydd oed neu lai (Mathew 2:16). Hyd yn oed pan oedd yn blentyn, gwyddai'r Iesu am fygythiad yr anghrediniol. Wynebodd hynny hefyd yn Nasareth pan oedd ei gyd-addolwyr yn y synagog wedi'i yrru allan o'r dref er mwyn ei luchio oddi ar y clogwyn (Luc 4:29). Cyfarfu ag ef eto ar Galfaria wrth ddiodef a marw ar groesbren (Mathew 27:32–44; Luc 23:26–49 ac yn y blaen). Mae'r Iesu yn deisyf ac yn haeddu cymaint mwy.

Dygodd y doethion eu rhoddion; rhaid i ninnau hefyd! A wnawn ni offrymu'n rhoddion i'r Iesu yn yr ysbryd priodol ar hyd y flwyddyn newydd? Neu ai esgusodion o bob math a gynigiwn iddo? Ai rhoddion fyddant a



offrymir mewn cariad, neu ynteu rhoddion a estynnir mewn difaterwch, malais, casineb ac anghrediniaeth? Gwyddom beth yw dymuniad yr Iesu. Byddai am i ni gofio'r tlawd a'r difreintiedig yn y byd. Byddai am i ni bledio achos cyfiawnder a heddwch. Byddai am i ni wneud ein gorau fel aelodau o'i Eglwys er mwyn i'n hymdrechion fedru dwyn ffrwyth ar ei ganfed. Os mai hau had casineb a wnawn, byddwn yn siŵr o fedi ei boen. Ond os heuwn had caredigrwydd a thosturi, fe brofw'n hyfrydwch a bendith. Mae'r addewid bob amser i'w ganfod yn yr ysbryd y cyflwynwn ein hunain i'r Iesu, ac ni ddylai'n bwriad fyth fod yn llai na chariadlawn.

Roedd y doethion yn barod i roi'r cyfan a feddent i'r Arglwydd. "Daethant i'r tŷ, a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr." (Mathew 2:11). Rhoesant wrogaeth i'r un a oedd nid yn unig yn Frenin yr Iddewon, ond yn Feseia i'r holl fyd. Gadewch i ninnau fynd yn eu cwmni i Fethlem y Nadolig hwn.

Yn unol awn eleni – i gofio
Gwir gyfoeth Ei eni,
Cawn waddol o'i addoli,
A daw nawdd Mab Duw i ni.

D. Gerald Jones

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.


Yr eiddoch yng Nghrist
Wyn Morris (Bugail)

Tudalen y Plant

Wyt ti wedi bod ar
siwrnai hir fel y
dynion doeth?

Lliwia lun y dynion
doeth a rhoi cefndir
addas iddo.

Yna, mae angen
llenwi'r bylchau yn
yr hanes.



Daeth dynion d ____ o'r dwyrain pell yn dilyn seren ddisglair.

Yn gyntaf, aethant i weld y Brenin H _____

Nid oedd y b _____ newydd yno.

Felly, i ffwrdd â nhw eto, ar ôl y s _____

Rhoesant arhegion i'r brenin newydd, a ____, thus a m _____

Anfonwch eich atebion at y
Gweinidog, drwy law eich athro /
athrawes Ysgol Sul os dymunwch,
erbyn **31 Ionawr**.

Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth
£10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw
allan o'r het.

* Longyfarchiadau i *
* Fabien Owen Roberts, *
* ysgol Sul y Garn *
* enillydd tasg y rhifyn *
* diwethaf. *

Manylion Cyswllt y Gweinidog:
Y Parch Wyn Morris,
Berwynfa, Penrhyn-coch,
Aberystwyth, SY23 3EW
01970 820939
berwynfa@btinternet.com

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

- 31 Rhagfyr: Gwynnos dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn am 11.30 p.m.
- 27 Chwefror: Oedfa Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth
Capel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Blas Llust
- 21 Mawrth: Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 23 Mawrth Pwyllgor Gweithredol Os Mêts
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Yr Astudiaeth Feiblaidd

Bydd yr astudiaeth yn aildechrau ym mis
Ionawr, a bydd lleoliadau ac amserau'r
cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi yn yr
eglwysi; byddant hefyd i'w gweld ar wefan y Garn
(www.capelygarn.org) maes o law.



Byddwn yn dilyn maes llafur yr ysgol Sul, sef *Geiriau Doeth y Beibl*, cyfres o astudiaethau Beiblaidd sy'n canolbwyntio ar Lyfr y Diarhebion a Dywediadau Iesu, gan Elwyn Richards.

Taith Dewi Sant: 2–10 Hydref 2010

Mawr fu'r edrych ymlaen at yr wythnos gyntaf ym mis Hydref. Dyma oedd penllanw misoedd o baratoi manwl ar gyfer cenhadaeth *Taith Dewi Sant* ym mhentrefi Bow Street, Capel Bangor, Llandre, Penrhyn-coch, Taliesin a Thal-y-bont. Cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwysi yn y cylch oedd aelodau'r tîm cynllunio lleol a buont wrthi'n ddyfal yn paratoi ar gyfer pob agwedd yn ymwneud â'r genhadaeth gan gynnwys llunio gweithgareddau'r wythnos, cyhoeddusrwydd, trefniadau llety a lluniaeth, yn ogystal â chludiant.

Fe'n hysbyswyd mai deg o genhadon a fyddai'n dod i'r ardal ond oherwydd rhesymau personol a theuluol dim ond wyth a ddaeth yn y diwedd. Roeddent wedi teithio cyn belled ag Ynysoedd Erch (Stuart), Caer-grawnt (Richard), Peterborough (Dave), Burnley (Peter), Bournemouth (Neil), Poole (Ian), Llangennech (Derek) ac Eric (Y Bala). Er i ni obeithio y byddai mwy o'n cydwladwyr wedi cymryd rhan yn y genhadaeth, yn y diwedd roeddem yn ffodus bod dau o'r cenhadon yn siarad Cymraeg.

Cyrhaeddodd y mwyafrif o'r tîm ar y nos Wener (1af o Hydref) er mwyn teithio i lawr i Aberteifi ar gyfer yr Oedfa Gomisiynu am 11 o'r gloch ar y bore Sadwrn canlynol. Yn ystod hanner cynta'r wythnos bu'r cenhadon yn cysgu ar lawr festri Capel y Garn yn Bow Street. Roedd gofalgwyr y capel, Ian a Gwen Cole, wrth law i sicrhau bod eu harhosiad mor gartrefol â phosib. Bu nifer o aelodau'r eglwys hefyd yn garedig iawn yn darparu gwelyau cyntaf/plygu ar gyfer y tîm er mwyn eu galluogi i gael noson dda o gwsg, neu fel arall byddai'r cenhadon wedi gorfod cysgu ar lawr y festri.

Wedi brecwast bob bore byddai'r tîm yn mwynhau egwyl gyda'i gilydd yn gweddio, myfyrio ac yn cynnal astudiaethau Beiblaidd cyn bwrw ati i ddiwrnod llawn o weithgarwch a oedd yn cynnwys ymweld ag ysgolion cynradd yr ardal, y Brownis a'r Geidiau, cartrefi'r henoed, cartrefi lloches, boreau coffi, yn ogystal â chenhadu o ddrws i ddrws. Gyda'r nos caent gyfle i ymweld â'r tafarndai yn y gwahanol bentrefi. Er nad oedd y rhan fwyaf o aelodau'r tîm wedi cyfarfod yn flaenorol, eto i gyd o fewn ychydig amser roeddent mewn cytgord llwyr â'i gilydd. Ar y cyfan rhoddwyd croeso cynnes iddynt gan drigolion yr ardal ac yn arbennig felly gan y rhai a oedd wedi paratoi prydau o fwyd iddynt gyda'r nos.

Dydd Mercher oedd y diwrnod newid drosodd, gyda'r tîm yn symud i Benrhyn-coch. Penderfynodd y cenhadon eu bod am gerddedd y daith ar hyd y lonydd culion a chawsant eu bendithio â thywydd hydrefol braf. Cyn pen dim roeddent wedi gwneud eu hunain yn gysurus yn eu cartref newydd yn festri capel Horeb a chyda chymorth Ian Cole a threiler Merfyn James cludwyd y gwelyau a'r matresi draw o Capel y Garn.



Yn ystod yr wythnos cynhaliwyd nifer o oedfaon arbennig yn ogystal â'r gwasanaethau Sul arferol. Bu oedfa ddiolchgarwch Cymdeithas y Chwirydd yng Nghapel y Garn ar brynhawn dydd Mercher gydag un o'r cenhadon, y Parchedig Eric Greene, yn pregethu. Ar y nos Fercher cynhaliwyd dwy oedfa ddiolchgarwch, y naill yn Eglwys Capel Bangor lle bu Roger Murphy, Efenglydd gyda *Through Faith Missions* yn pregethu, a'r llall yn Neuadd Penrhyn-coch o dan arweiniad y Parchedig Tecwyn Ifan, Ysgogwr Cymanfa gyda'r Bedyddwyr yn Ninbych, Fflint a Meirion. Yn ogystal, cynhaliwyd Gwasanaeth Iacháu yng nghapel Horeb ar y nos Wener. Ar y bore Sul olaf bu'r cenhadon yn mynychu nifer o oedfaon yng nghapeli ac eglwysi'r ardal cyn dychwelyd i Neuadd yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch ar gyfer cinio, wedi'i baratoi'n garedig gan rai o aelodau'r capel a'r eglwys. Yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau bu'r cenhadon yn rhoi eu tystiolaeth, rhywbeth a werthfawrogwyd yn fawr gan bawb a gafodd y fraint o wrando arnynt. Darparwyd offer cyfieithu ar y pryd ar gyfer rhai oedfaon er mwyn galluogi'r cenhadon di-Gymraeg i ddeall yr hyn a oedd yn digwydd. Mawr yw ein diolch i Mrs Llinos Dafis am gyfieithu.

Pa elw felly a ddaeth i eglwysi'r cylch yn sgil cynnal *Taith Dewi Sant*? Heb amheuaeth, bu'r genhadaeth yn fodd i ddarparu ffocws arbennig i alluogi eglwysi'r ardal i gydweithio ac o ganlyniad mae'r gweithlu lleol wedi penderfynu cyfarfod yn rheolaidd o hyn ymlaen i drefnu digwyddiadau cydenwadol ac i annog ei gilydd yn ein gweinidogaeth Gristnogol.

Hefyd, cafodd ein ffydd ei chryfhau a'i herio yn ystod yr wythnos wrth i rai ohonom fod yng nghwmni'r cenhadon bron bob awr o'r dydd. Roeddent mor daer a brwdfrydig yn eu hawydd i rannu'r Efengyl ag eraill. Efallai ein bod wedi teimlo ychydig yn betrusgar cyn iddynt gyrraedd ond gwelsom yn fuan nad pobl uwchysbrydol oeddent ond pobl gyffredin, yn union fel chi a fi!

Mae'r Arolwg a gynhaliwyd gan genhadon *Taith Dewi Sant* wrth fynd o ddrws i ddrws wedi dangos yn glir fod y rhan fwyaf o bobl yn dal i gredu mewn Duw neu o leia yn chwilio am adnabyddiaeth ohono. Holwyd tua 200 o bobl yn ystod yr wythnos a dyma oedd y canlyniadau:

Ydych chi'n credu mewn rhyw fath o Dduw?

Ydwyf (60%) / Nac ydwyf (22%) / Ddim yn siŵr (18%)

Os ydych yn credu yn Nuw, neu heb fod yn siŵr, sut un yw Duw yn eich tyb chi?

Grym (15%) / Pell (8%) / Personol (53%) / Rhywbeth arall (24%)

Beth ydych chi'n credu sy'n digwydd pan ddaw ein bywyd i ben?

Rydym yn marw a dyna ni (20%)

Down yn ôl i'r byd ar ffurf arall neu fel person arall (8%)

Mae pawb yn mynd i'r nefoedd (17%)

Mae rhai yn mynd i'r nefoedd ond fe â eraill i uffern (16%)

Ddim yn siŵr (28%)

Rhywbeth arall (11%)

Beth yw eich cred am Iesu?

Ni fu'n bod o gwbl (3%)

Roedd yn ddyn cyffredin a dim byd mwy (17%)

Roedd yn broffwyd neu'n negesydd oddi wrth Dduw (24%)

Ef yw unig Fab Duw (40%)

Arall (16%)

Pe medrech ofyn un cwestiwn i Dduw (neu i rywun sy'n credu yn Nuw), beth fyddai hwnnw? Dyma rai posibiladau:

Pam na wnei di ddangos dy hun fel y daw pawb i gredu ynot? (9%)

Pam ydw i ar y ddaear? (6%)

Pam mae cymaint o ddioddefaint yn y byd? (44%)

Pam wnaethost ti greu'r byd yn y lle cyntaf? (11%)

Rhywbeth arall (30%)



Os hoffech adnabod Duw yn bersonol, a fyddai gennych ddiddordeb?

Na fyddai (11%) / Byddai (58%) / Ddim yn siŵr (28%) /
Rhyw ymateb arall (3%)

Yn sicr bu *Taith Dewi Sant* yn galondid mawr i bawb a fu'n ymwneud â hi. Rydym i gyd yn gobeithio y bydd yr hadau newydd a blannwyd yn ein cymunedau yn dwyn ffrwyth a thystiolaeth i'n Harglwydd Iesu maes o law.

Gyda mawr ddiolch i bawb a roddodd groeso a chymorth yn ystod *Taith Dewi Sant*.

Judith a Wyn Morris



Chwiorydd y Garn

Mae Chwiorydd y Garn yn trefnu te misol ar y dydd Mercher cyntaf o bob mis drwy'r gaeaf, ac mae croeso i unrhyw un ymuno â ni. Yn anffodus, prin yw'r brodyr sy'n mentro!

Dechreuodd cyfarfodydd yr hydref yn ystod Taith Dewi Sant, a bu rhai o'r cenhadon yn ein cynorthwyo yn ein Cyfarfod Diolchgarwch

Ym mis Tachwedd cawsom atgofion gwahanol aelodau a fu'n gweld Drama'r Dioddefaint yn Oberammergau dros y blynyddoedd. Roedd y rhaglen wedi ei threfnu gan y Barch. Judith Morris, a Bethan Jones, Gwenda Edwards a Nans Morgan fu'n dweud eu hanes.

Ein cadw'n hunain yn weddol heini oedd bwriad cyfarfod mis Rhagfyr ac fe gafwyd mwynhad mawr yn gwneud ychydig o ioga dan arweiniad Sue Jones Davies.

Yn ogystal â chynnal y te misol bu'r chwiorydd hefyd yn trefnu'r ffair Nadolig, a gynhaliwyd fore Sadwrn, 27 Tachwedd, yn Neuadd Rhydypennau. Er gwaethaf y rhew a'r eira cafwyd ffair lewyrchus iawn. Ar ôl i'r gweinidog, y Parch. Wyn Morris, groesawu pawb, agorwyd y ffair gan Iestyn a Marian Hughes, a chyflwynodd Lleucu Siôn flodau iddyn nhw. Mrs Mary Thomas, Dolgelynnen, fu'n beirniadu gwaith arlunio plant yr ysgol Sul. Lleucu Siôn enillodd y wobr gyntaf yn y dosbarth i blant chwech ac iau, a Glesni Morgan oedd yr enillydd yn y dosbarth dros chwech oed. Diolchwyd yn gynnes i Fanc Barclays am eu nawdd i'r achlysur.





Gwasanaeth Nadolig ysgol Sul y Garn





Ionawr

Blaenor y Mis: D. Bryn Lloyd

I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones/ Eddie Jenkins

- 2** Parch. Elwyn Pryse
- 5** Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
 'O Bellter y Byd Alltud' – Dewi G. Hughes
- 6** Pwyllgor yr ysgol Sul am 7.30 o'r gloch
- 7** Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch
- 9** Mr Walford Gealy
 Dr Terry Edwards
 Ysgol Sul y Garn yn ailddechrau
- 14** Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch
- 16** Bugail
 Cymun yn oedfa'r bore
- 21** Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
 'Brethyn Tri Chartre' – Rhodri, Geraint a Matthew
- 23** Dr Rhidian Griffiths
- 30** Bugail
 Parch. Wiliam Owen

Chwefror

Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes

I gyfarch wrth y drysau: D. Bryn Lloyd / D. Elystan-Morgan

- 2 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Tegwyn Jones
- 6 Parch. Richard Lewis
Bugail
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn
- 13 Mr Arwyn Pierce
Bugail
- 18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Gwaith Nyrs Ardal' – Mrs Enid Jones
- 20 Bugail
Cymun yn oedfa'r bore
- 27 Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Ofalaeth
Capel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Blas Lluest



Blodau'r Cysegr

Diolch i bawb a gyfrannodd flodau i harddu'r allor yn ystod y flwyddyn, ac i Ian a Gwen Cole am ofalu am y trefniadau.

Bydd y rhestr ar gyfer 2011 yn cael ei rhoi yng nghyntedd deheuol (yr ochr chwith) y capel yn fuan, ac estynnir gwahoddiad i chi roi eich enwau ar y rhestr. Byddem yn arbennig o falch o weld rhagor o deuluoedd yn cyfrannu yn y ffordd hon, sy'n gyfraniad gwerthfawr at yr addoliad bob Sul.

Mawrth

Blaenor y Mis: D. Elystan-Morgan

I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian Beech Hughes

- 2 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Taith i Nepal' – Nansi Thirsk

- 6 Bugail
Mr John Price

- 11 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Cwrdd Bach Cystadleuol' dan ofal Tegwyn Jones

- 13 Bugail
Y Parch. Cen Llwyd

- 20 Bugail
Oedfa gymun yn ysgoldy Bethlehem yn yr hwyr

- 21 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

- 23 Pwyllgor Gweithredol Os Mêts
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

- 27 Mr Richard Llwyd Jones

OS MÊTS

Rydym yn falch fod Efan Williams wedi ymdaflu i'w swydd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuentid yng ngogledd Ceredigion ac eisoes wedi cynnal sesiwn hwyliog gydag aelodau 'Os Mêts' yn Neuadd Rhydypennau nos Fercher, 6 Hydref.

Yna, ar 30 Tachwedd bu criw dan arweiniad Falyri Jenkins, Ruth Jên a Helen Jones yn ymarfer ar gyfer canu carolau ac yn darparu cardiau Nadolig i'w dosbarthu ymhlith trigolion Cartref Tregerddan ac Afallen Deg. Aeth yr aelodau i ymweld â'r trigolion nos Fercher, 15 Rhagfyr, dan arweiniad y Fns Falyri Jenkins a chafwyd cefnogaeth dda oddi wrth garedigion 'Os Mêts'.

Prynhawn Gwener, 17 Rhagfyr, trefnodd Efan Williams i ieuentid y cylch cyfan ganu carolau o flaen Siop y Pethe, gan gyfrannu nid yn unig at greu naws Nadoligaidd yn Aberystwyth ond hefyd helpu i gasglu arian at fudiadau dyngarol.

Grŵp Help Llaw y Garn



Diolch i'r aelodau ac i gyfeillion am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael yn ystod y tymor a aeth heibio.

Estynnwyd help llaw i Tŷ Gobaith, hosbis i blant yng Nghonwy. Anfonwyd blancedi lliwgar a chyfraniad ariannol i Tŷ Cariad, cartref Cristnogol i blant amddifad yn Uganda.

Mae llwyth o ddillad cynnes wedi'u gwau a theganau ar eu ffordd i blant anghenus yn Pastuva, Lithuania, a chyfraniad ar gyfer eu cludo yno.

Derbyniwyd 42 o focsiau sgidiau llawn ar gyfer Operation Christmas Child, ynghyd â £230 o nawdd i sicrhau eu bod yn cyrraedd pen y daith.

Diolch am y gweithgarwch a'r haelioni – a chofiwch ddod â'r stampiau i ni wedi'r Nadolig, er budd Oxfam.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Shân Hayward
(01970 828268)

Bethan Jones
(01970 611502)

Taith Dewi Sant – ymateb aelod o'r tîm

Bellach mae rhai wythnosau wedi mynd heibio er pan gyrhaeddais i a thîm o saith dyn arall garreg eich drws (yn llythrennol, mewn rhai achosion) gyda'n paciau a'n hesgidiau cerdded fel rhan o Daith Dewi Sant. Bu'n wythnos gofiadwy ar lawer ystyr – cyfle i gyfarfod nifer ohonoch yn eich eglwysi a'ch cartrefi, mwynhau tywydd braf a heulog, dysgu ychydig am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac wythnos lawn o gwrdd â phobl o bob oedran.

Felly, beth alla i ei ddweud wrth edrych yn ôl ar yr wythnos? Roeddem yn dod o wahanol rannau o Brydain, o Ynysydd Erch i Dorset, o Ddwyrain Anglia i Eryri – rhai ohonom yn wŷr priod ac yn dadau, eraill yn ddynion sengl. Yn ein plith yr oedd ffermwr oedd bellach yn rheolwr canolfan encil, crefftwr, dyn busnes, glanhawr, saer, gweinidog, a dau beiriannydd. Roeddem hefyd yn ffodus fod dau aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg; roedd hyn yn ddefnyddiol iawn wrth sgwrsio o ddrws i ddrws ac mewn sefyllfaoedd eraill, a hefyd yn ffordd o gyflwyno materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i aelodau eraill y tîm.

Tasg amhosib yw ceisio crynhoi'r holl weithgareddau'r wythnos ond fe hoffwn rannu gyda chi rai enghreifftiau o brofiadau a gefais i, er mwyn i chi gael syniad o rai o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod yr wythnos:

- ◆ Roedd un wraig wedi bod yn weithgar gyda'r mudiad Cristnogol pan oedd yn fyfyrwraig, ond wedi cael ei brifo gan rai o'r gwendidau a welsai yn un o'r arweinyddion; fe'i hanogwyd i beidio â gadael i hyn barhau i fod yn rhwystr iddi.
- ◆ Dywedodd un gŵr oedranus wrthym ei fod wedi darllen y Beibl cyfan ddwywaith yn ystod y pum mlynedd diwethaf. (Does dim llawer o Gristnogion wedi gwneud hynny!) Fe wnaethom ei annog i geisio perthynas bersonol â Duw.
- ◆ Daethom ar draws dwy wraig oedd â diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am Gristnogaeth, ac a oedd hyd yn oed wedi mynychu cwrs Alffa ac wedi darllen y llyfrau a roddwyd iddynt, er nad oedd yr un ohonynt wedi'i hargyhoeddi. Er hynny, nid oeddent yn diystyru trafodaeth bellach.
- ◆ Roedd gan nifer o bobl ffrindiau oedd yn Gristnogion, ffrindiau roeddent yn eu hoffi a'u parchu, ac wedi bod yn trafod gyda hwy yn y gorffennol. Teimlem y gallai'r ffrindiau hyn barhau i fod yn bersonau cyswllt pwysig iddynt.
- ◆ Yn un o'r tafarndai, roedd trafodaeth fywiog yn digwydd yn gyhoeddus; ond yn dawel, a heb i'r rhan fwyaf o'i ffrindiau sylwi, gofynnodd un gŵr ifanc am weddi ar gyfer ei amgylchiadau personol ac roedd yn falch o dderbyn llyfryn.
- ◆ Dywedodd un wraig wrthym ei bod yn dioddef o salwch difrifol, ac er nad oedd yn arbennig o grefyddol, roedd yn fodlon inni weddi drosti.
- ◆ Mewn bore coffi, roeddem yn sgwrsio'n gyffredinol gyda nifer o wragedd, ac yna datblygodd y sgwrs yn drafodaeth ysbrydol ar yr angen i weithredu'r hyn rydym yn ei bregethu, a thrwy hynny ddangos neges Iesu yn eglur.

Wrth fynd ar genhadaeth i wahanol rannau o Brydain, rydym yn dod ar draws pobl sy'n coleddu ystod eang o safbwyntiau ac agweddu ysbrydol, ond yn aml iawn maent yn cadarnhau'r gwirionedd trist nad yw'r rhan fwyaf o'r trigolion bellach yn arddel nac yn dilyn y ffydd Gristnogol i'r un graddau o bell ffordd ag yr arferid ei wneud rai degawdau yn ôl. Mae llai o barch tuag at yr eglwys, ei hawdurdod a'i pherthnasedd i'w bywyd, ac roedd hyn yn amlwg yma yn eich cymunedau chithau hefyd. Bob dydd roedd hi'n amlwg nad yw pobl bellach yn sicr nac yn hyderus mewn materion sy'n ymwneud â'r ysbrydol neu â ffydd, am natur Iesu neu fywyd ar ôl marw; yn wir, roeddent yn amheus o sicrwydd crefyddol ac yn ei ystyried fel rhywbeth nad oedd bellach yn bosib nac yn briodol yn ein hoes ni. Doedd gan lawer ohonynt ddim diddoreb mewn Duw, na llawer o awydd i dreulio amser nac ymdrech yn ystyried y pethau hyn gan eu bod mor brysur yn byw eu bywydau materol o ddydd i ddydd.

Credaf fod yna her a chyfle i unigolion a'r eglwysi, ond mae'n her y gellir ei chyflawni, yn enwedig lle mae yna ewyllys a pharodrwydd i edrych o'r newydd ar rai o'r ffyrdd rydym yn eu defnyddio i'n cyflwyno ein hunain ac yn gweithredu yn yr eglwysi, er efallai y gallai hyn olygu gwneud pethau mewn ffordd ychydig yn wahanol ar brydiau. Fe'm trawyd ar y naill law gan yr ymagwedd barchus ac addolgar a gafwyd yn y gwasanaethau crefyddol, ond clywais hefyd am gynlluniau newydd a gwahanol i geisio cyrraedd at bobl nad ydynt yn perthyn i'r eglwysi. Yn ystod wythnos y genhadaeth, fe ddaethom ar draws gwahanol fathau o bobl o fewn y gymuned ac efallai y bydd angen darparu ar eu gyfer mewn amrywiol ffyrdd, e.e.:

- ◆ Teuluoedd neu unigolion ifanc sy'n gweithio, y byddai'n well ganddynt glywed am y bywyd a'r gwirionedd Cristnogol mewn sefyllfa fodern neu gyfoes, ac wedi'u mynegi mewn ffyrdd mwy deniadol iddynt.

- ◆ Unigolion sy'n amheuwyr ond yn weddol agored eu hagwedd a allai fod â diddordeb mewn digwyddiadau sy'n archwilio Cristnogaeth os cyflwynir hwy mewn dulliau cyfoes / gan unigolion sy'n dangos eu perthnasedd i fywyd cyfoes.

- ◆ Pobl oeddrannus, sydd yn aml wedi'u heffeithio gan brofiadau bywyd, megis profedigaeth, salwch ac unigrwydd, a fyddai efallai'n gwerthfawrogi digwyddiadau traddodiadol yn y gymuned, gweinidogaeth fugeiliol, ambell ymweliad gan dîm ymweld lleyg, etc.

- ◆ Nifer o bobl a fu â chysylltiad ag eglwys neu gapel lleol yn y gorffennol, ond nad oeddent bellach yn mynychu, ond a allai, trwy gyswllt personol, gael eu hannog i fod â ffydd weithredol unwaith eto.

- ◆ Pobl o sawl ffrwd wahanol yn y ffydd Gristnogol neu o ran iaith, a fyddai'n elwa o weithgareddau pontio i'w dwyn ynghyd ac mewn rhai achosion i wella clwyfau sy'n deillio o wahaniaethau yn y gorffennol neu'r presennol.

Pob bendith,

Richard Winski (Tîm W103)

Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion

Braint i gynulleidfa niferus iawn, yn blant, ieuencid ac oedolion, oedd cael bod yn bresennol mewn gwasanaeth hynod fendithiol yng Nghapel Rhyd-lwyd, Lledrod, ddydd Sul, 14 Tachwedd, pryd y comisiynwyd Efan Miles Williams yn Swyddog Gwaith Plant ac Ieuencid Gogledd Ceredigion. Priodol iawn oedd cynnal y gwasanaeth yn Rhyd-lwyd gan mai yno y bu meithrinfa a magwraeth Efan ac yno hefyd mae Efan yn aelod gweithgar o'r eglwys.

Llywyddwyd y gwasanaeth a chomisiynwyd Efan i'r gwaith gan y Parch. Wyn Morris, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion. Sefydliad newydd yw'r Fenter a'i nod yw cyflwyno neges Efengyl lesu Grist i blant ac ieuencid yr ardal; fe'i cefnogir ar y cyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.



Traddodwyd anerchiad amserol a phriodol gan y Parch. Andrew Lenny yn gosod cyd-destun i'r cymwysterau sydd eu hangen i wynebu her y swydd. Cafwyd cyfraniadau ar lafar ac ar gân hefyd gan y Parch. Nicholas Bee, gweinidog Efan, y Fns Joyce Howells ac ieuencid nifer o eglwysi gogledd Ceredigion. Cyfeiliwyd gan offerynwyr pres dan arweiniad y Fns Llïo James.



Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd y Fns Beti Griffiths, ar ran aelodau Rhyd-lwyd, Feibl i Efan fel arwydd o’u dymuniadau da a thystiolaeth o’u gwerthfawrogiad iddo am ei gyfraniad i’r eglwys.

Gwerthfawrogwyd gwledd o ddanteithion a ddarparwyd gan garedigion Capel Rhyd-lwyd.

Dechreuodd Efan ar ei swydd tair blynedd ar 1 Medi a lleolir ei swyddfa yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth.

Sefydlwyd y Fenter yn ffurfiol yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2010, gyda chefnogaeth ariannol y gwahanol enwadau ynghyd â nawdd Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

Dywedodd y Parch Wyn Morris: ‘Hyfryd oedd gweld tyrfa mor anrhydeddus yn y gwasanaeth yn estyn cefnogaeth i Efan wrth iddo gychwyn ar ei waith o gynnal Achos Crist ymhlith ein plant a’n hieuentid. Derbyniwyd sylwadau gan nifer o bobl oedd wedi profi gwefr arbennig o fod yn bresennol. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Efan a dymunwn bob bendith iddo yn ei waith.’

Y Garn – Oedfa Fedydd a Chroeso Nôl

Roedd oedfa bore Sul, 19 Medi, yn wasanaeth o groeso mewn sawl ystyr. Bedyddiwyd dau faban gan y Gweinidog, sef Hanna Thomas Jones, merch Alun a Siân, chwaer William a Gerwyn, a Liwsi Fflur Curley, merch Andrew a Manon, a chwaer Ffion.

Seiliodd y Gweinidog ei neges o Groeso Nôl ar eiriau'r Iesu, 'Dewch i weld' (Ioan 1:39). Roedd yn braf gweld llawr y capel yn llawn, gyda nifer o berthnasau a ffrindiau'r ddau deulu yn bresennol, ac arloeswyd drwy gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rhai na allai ddilyn y gwasanaeth yn Gymraeg. Diolch i Llinos Dafis am gyfieithu.

Gofalwyr y Garn

Mae Ian a Gwen Cole wedi hysbysu'r swyddogion eu bod yn bwriadu ymddeol o fod yn ofalwyr y Garn ddiwedd Mawrth 2011.

Mae eu gofal dros yr adeiladau yn ystod y deng mlynedd diwethaf hyn – ac yn ystod eu cyfnod blaenorol fel gofalwyr – wedi bod yn eithriadol ac mae ein diolch yn ddiffuant iddynt am eu cydweithrediad a'u hynawsedd bob amser.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd at y gwaith o ofalu am y capel neu os gwyddoch am rywun allai fod â diddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd neu un o'r swyddogion, os gwelwch yn dda. Bydd y manylion a'r telerau i'w trafod.

Anfonwn ein cofion at aelodau eglwysi'r ofalaeth nad ydynt yn gallu ymuno gyda ni i addoli ar y Sul ar hyn o bryd – rhai mewn ysbytai neu mewn cartrefi i'r henoed ac eraill gartref ar eu haelwydydd.

Y Gerlan

“Very sad” yw un o hoff ymadroddion y darlledwr Gwilym Owen pan gyfeiria at ryw ddigwyddiad trist. Gellir defnyddio yr un ymadrodd wrth sylweddoli y bydd drws capel y Gerlan yn cau am y tro olaf ar ddiwedd Rhagfyr. Y Gerlan oedd yr unig addoldy anesgobol lle yr oedd gynt bedwar. Y tristwch pennaf yw sylweddoli bod yna ddigon o Gymry Cymraeg yn y pentref i fod wedi diogelu dyfodol yr Achos. Bellach mae hi’n rhy hwyr.

Cofia rhai ohonnom ddau gapel Presbyteraidd yma a gweinidog yr un ar y ddau. Y Parchedig D. Caron Jones (brodor o Dregaron) a fu yno am dros hanner can mlynedd yn gofalu am Soar, addoldy’r ffermwyr yn bennaf, a hefyd yn gofalu am y Babell, Dôl-y-bont, a Libanus, addoldy’r rhai oedd yn gysylltiedig â’r môr a’r Parchedig E. J. Jenkins (brodor o Aberystwyth) yn eu bugeilio.

Daeth eglwys yr Annibynwyr i gydaddoli â’r Presbyteriaid yn 1990, ac fe gafwyd cydweithio hyfryd rhwng y ddwy eglwys ar hyd y blynyddoedd ac enwadaeth yn cael ei hanghofio.

Capel Seion

Yn y gwasanaeth fore Sul, 28 Tachwedd, Sul cyntaf yr Adfent, bedyddiwyd Celt Ceiriog Dafydd gan y Gweinidog, y Parch. Wyn Rhys Morris. Cyflwynwyd Tystysgrif Bedydd a *Beibl Bach y Plant* i Celt. Defnyddiodd y Gweinidog y Beibl Bach i ddarllen hanes yr angel Gabriel yn ymweld â Mair i ragfynegi genedigaeth Iesu. Mae Celt yn fab i Rhian a David, Maes y Delyn, Aberaeron, yn frawd i Swyn ac Eos, ac yn wŷr i Magdalen Davies, Gwelfro, a Helen a James Davies, Llanarth. Ymunodd pawb i ddatlu trwy fwynhau’r gacen fedydd a baratowyd gan Magdalen. Dymunwn bob hapusrwydd a bendith iddynt.

Dathlu Uno'r Enwadau

Er i'm cyfaill Vernon lunio emyn tri phennill dan y pennawd uchod yn rhifyn Haf 2009 o *Gair o'r Garn*, a dweud fod pererinion yn gorfoleddu 'Am fod muriau cul enwadaeth/Wedi syrthio'n ddarnau mân', gwyddom nad dyna'r gwir. Ym 1995 pan ddatlwyd dau ganmlwyddiant sefydlu Cymdeithas Genhadol Llundain gofynnwyd i Elfed ap Nefydd Roberts roi sylw i Ddwy Ganrif o Genhadaeth yn y llyfryn defosiwn *Gweddio*. Yn y myfyrdod 'Claddu Culni' dywed Elfed fod arweinwyr Eglwyswyr, Methodistiaid, Presbyteriaid ac Independiaid yn dymuno gosod sylfeini anenwadol i'r genhadaeth yn hytrach nag allforio enwadaeth. Mae'n dyfynnu sylw o bregeth y sefydlu gan y Parchg David Bogue, Gosport: 'Wele ni wedi ymgynnull ag un meddwl i fod yn dystion i angladd culni, fel y cleddir ef mor ddwfn fel na chyfyd un gronyn o'i lwch byth mwy.'

Sylw Elfed yw: 'Er mai araf, poenus, a rhwystredig fu'r daith i gyfeiriad Undeb Cristnogol, yn enwedig yma yng Nghymru, deil delfryd y Gymdeithas Genhadol yn her ac yn ysbrydiaeth i ni heddiw ganfod ffyrdd o fynegi ein hundod "er mwyn i'r byd gredu". A allwn obeithio cael y byd cyfoes i gredu yn neges yr Efengyl a ninnau yn lleol a chenedlaethol fel baem yn mwynhau parhau ein rhaniadau annedwydd? Sut y gall eglwysi rhanedig gyhoeddi Crist sy'n cyfannu?'

Union ddeng mlynedd yn ôl gwrthododd eglwysi Cymru argymhellion 'Y Ffordd Ymlaen' i greu Eglwys Unedig Cymru ac yn ystod dirywiad trist Cristnogaeth degawd cyntaf y ganrif hon nid closio at ein gilydd a wnaed ond ymbellhau. Un arwydd o hynny yw'r drafodaeth fu yn y Gymanfa Gyffredinol lle roedd rhai am dynnu allan o'r corff ecwmenaidd Cytûn. Arwydd arall yw gweld enwadau'n cynllunio strategaeth a rhaglen ddatblygu ar lefel enwadol sy'n wastraff anfoesol o adnoddau prin. Ni ddylem geisio cyflawni dim ar wahân y gallem ac y dylem ei wneud gyda'n gilydd. Sarhad ar yr Ysbryd Glân a Phen Mawr yr Eglwys yw codi stêm o blaid enwadaeth a chapelyddiaeth – a sêtyddiaeth mewn ambell gapel. Crynhodd yr addysgwr W. J. Bowyer (cefnder y Prifathro Gwilym Bowyer) brofiad llawer ohonom yn ei englyn cofiadwy:

Is y rhod pwy all godi – ein Heglwys
Hyglod o'i thrueni?
Enwadaeth fu'n ei thlodi,
Pla ein hoes yw'n 'capel ni'.

Wrth lywio trafodaeth ynglŷn â gadael hen adeiladau anaddas a chostus i'w cynnal yn y Graig a Maengwyn, Machynlleth, a mynd i addoli i'r Tabernacl a oedd yn gapel Wesle cyn ei gau a'i droi a'i addasu'n chwaethus yn ganolfan diwylliant, teimlais yn drist fod syniadau'r gwrthwynebwyr yn bradychu'r syniad am natur Eglwys Iesu Grist. Mae'r Beibl, ac yn enwedig un adnod yn llyfr y Datguddiad, yn cyhoeddi 'Addola Dduw'.



Ond mae'n amlwg mai addoli brics a morter a wna gormod o'n pobol. Hoffais y sylw mewn llyfryn defosiwn: 'Trwy ei Lythyrau ac nid gyda brics a morter yr adeiladodd Paul yr Eglwys.' Ofer fydd chwilio am y gair capel yn y Testament oherwydd ni ddefnyddiodd Iesu'r gair gan mai sôn am eglwys a wnaï bob amser – 'Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys'. Ie, eglwys a fydd yn bodoli pan fydd capeli'n llwch a lludw.

Dyma air Meirion Lloyd Davies yng ngolygyddol y cylchgrawn *Cristion* ddeng mlynedd yn ôl dan y pennawd 'Y Cyfle Olaf?': 'Mae hi'n unfed awr ar ddeg arnom. Ni ellir gwadu nad yw Ymneilltuaeth Cymru'n derfynol wael. Ymhen degawd ni fydd dim ar ôl ond cyrff marw na fyddant yn werth eu huno. Ac yn ystod ein goruchwyliaeth ni ar y Winllan y bydd hyn wedi digwydd.' Beth yw'n hymateb i air Meirion? Cytunaf â John Gwilym Jones yn yr un rhifyn: 'Ni chredaf y bydd uno enwadau yn creu diwygiad. Ond fe fyddai yn sicr yn foddion i gysoni a thargedu adnoddau. Yn bwysicach o lawer na hynny, byddai yn ein rhyddhau ni o hualau traddodiadau ac arferion, er mwyn hoelio ein sylw a'n teyrngarwch i Grist.' Mae'r sylw yn f'atgoffa o air Harri Williams, fy nhad yng nghyfraith: 'Dylem fod yn barod i ildio'n teyrngarwch llai i'r teyrngarwch Mwy.' A'r Mwy i ni yw ein Harglwydd Iesu Grist a ysbrydolodd y Pêr Ganiedydd o Bantycelyn i fynegi gwirionedd sylfaenol, gwirionedd y mae gormod o gapelwyr yn ei anwybyddu:

Un llais, un sŵn, un enw pur,
O'r gogledd fo i'r dwyrain dir;
O fôr i fôr, o gylch y byd,
Sef enw Iesu oll i gyd.

W. J. Edwards

Golwg Newydd ar y Drindod

Y tro nesaf y byddwch yn y Stryd Fawr yn Aberystwyth, cymerwch eiliad i edrych i fyny ar y wal uwchben siop Savers. Mi welwch blac yn cofnodi mai ‘Yn y tŷ hwn ffurfiwyd Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calфинаidd yn 1823’. Mae gan y rhan fwyaf o enwadau gyffes ffydd sydd yn crisialu hanfodion eu credoau – hyd yn oed y Crynwyr; er nad oes ganddynt ddogma neu gredoau, maent yn derbyn canllawiau. Fe ddylem fod yn ddiolchgar i’r rhai sydd wedi llafurio i amlygu elfennau angenrheidiol ein henwadaeth, ond faint ohonom sydd wedi darllen cyffes ffydd y Methodistiaid Calфинаidd? Dichon fod cyffes ffydd yn gallu datgan yn glir sail ein crefydd, ond ai ffrwyth meddwl rhydd ac astudiaeth ddwys pob unigolyn yw hyn, neu rywbeth sydd wedi’i osod arnom trwy awdurdod? Er bod bendithion yn deillio o gael cyffes ffydd, gall fod yn geidwadol ac yn haearnidd. Mae gan y Methodistiaid ddeugain a phedair o erthyglau yn eu cyffes ffydd hwy ac yng nghyffes yr Eglwys yng Nghymru cawn ddeugain namyn un. Tybed faint o Fethodistiaid heddiw sy’n derbyn Cymal 44 o’u cyffes, lle mae’n disgrifio tynged yr anuwiolion:

nad yw eu pryf hwynt yn marw, na’r tân yn diffodd; ac y cânt eu bwrw i’r llyn tân yn llosgi â brwmstan. Teflir hwynt i’r tywyllwch eithaf, wedi rhwymo eu traed a’u dwylo; yno bydd wylofain a rhincian dannedd; a’u cosb a barahâ yn dragwyddol.

Nid yw pob aelod o’r Eglwys yng Nghymru yn derbyn Cymal 37 o’r Deugain Erthygl Namyn un, fel y gwelwn:

Fe ddichon Cyfreithiau y Deyrnas gosbi Cristnogion ag angau, am feiau ysgeler, trymion. Y mae’n gyfreithlon i Gristnogion wrth orchymyn y Llywodraeth wisgo arfau, a gwasanaethu mewn rhyfeloedd.

Mewn gwasanaeth sefydlu mae pob ficer yn gorfod derbyn yn llythrennol y Deugain Erthygl Namyn un yn gyhoeddus, ond beth am y ficeriaid sydd o berswâd heddychlon? Un ffordd o leddfu eu dryswch yw iddynt fabwysiadu ‘ymataliad distaw’! Ond beth yw gwerth cyffes ffydd sydd yn debyg i wely Procrwstes? Cymeriad mytholegol oedd Procrwstes. Ei arferiad oedd cynnig llety dros nos ar wely haearn i drafaelwyr. Os nad oedd yr ymwelwyr yn ffitio’r gwely, byddai eu haelodau’n cael eu tocio neu eu hymestyn er mwyn cael cyfatebiaeth. Ai gwely Procrwstes yw cyffes ffydd? Oni ddylai cyffes ffydd fod yn ffrwyth ewylllys rydd ac ymchwil ddwys?


Cefais brofiad o'r math yma o gyffes ffydd yn ddiweddar, a hynny mewn nofel.

Ysgrifennwyd y nofel *The Shack* gan William Paul Young ar gyfer ei blant. Ar ôl perswâd, cytunodd yr awdur i gyhoeddi ei waith. Ers hynny mae'r nofel wedi gwerthu miliynau o gopiau ac wedi ennill clod mawr – a pheth beirniadaeth. Ni fyddai'n deg datgelu sut mae'r stori'n datblygu; byddai hynny'n sbwyllo un o bleserau darllen, ond digon yw dweud bod y prif gymeriad, Mack, oherwydd profiadau erchyll yn ei blentynod a'i fywyd teuluol, wedi ei ynysu ei hunan oddi wrth gariad a chysur Duw. Un diwrnod mae'n derbyn nodyn dienw yn estyn gwahoddiad iddo gwrdd yn y 'shack', y fangre lle llofruddiwyd ei ferch fach annwyl flynyddoedd ynghynt. Gyda chryn dipyn o betruster mae'n ymddangos o flaen drws y 'shack', a phwy sy'n agor y drws i'w groesawu ond Duw wedi'i ymgawdoli ar ffurf menyw Affro-Americanaidd. Tu mewn i'r 'shack' mae'n cwrdd â Christ ar ffurf saer coed, a'r Ysbryd Glân ar ffurf garddwraig Asiaidd. Mae presenoldeb y Drindod yma, neu unrhyw un ohonynt, yn trawsnewid pob peth sy'n digwydd o fewn ac o gwmpas y 'shack'. Dangosir nodweddion yr amgylchfyd naturiol yn ei gryfder a'i berffeithrwydd eithaf, ac mae agosatrwydd a chariad yn treiddio trwy bob cyfathrach rhwng Mack a'r Drindod. (Mae Mac yn gofyn, 'Which of you is God?' ac mae'r tri yn ateb mewn unsain 'I am'.)

Trwy brofiadau rhyfedd dros y penwythnos daw Mack i ddeall gwir natur y Drindod, y cariad sy'n uno'r Drindod, a'r maddeuant mae'n ei gynnig i bawb. Mae hyn yn digwydd, nid trwy osod cyffes ffydd arno, na thrwy driniaeth 'gwely Procrustes', ond trwy adael i'w ewyllys rydd ymateb i gariad a maddeuant Duw. Pery hanes y cyfnod yma dristwch hyd at ddagrau i'r darllenydd, ond ceir hefyd lawenydd hyfryd, heb ludedd yn y byd. Yn wir, mae fel fersiwn gyfoes o *Taith y Pererin* gan John Bunyan.

Llyfr eithriadol yw *The Shack*. Cytuno neu anghytuno, ni fyddwch yr un fath ar ôl ei ddarllen.

The Shack, William Paul Young (Hodder & Stoughton)



Eric Hall

Gwaith y Nadolig

Y mae gwaith y Nadolig yn dechre
pan ddaw dydd Nadolig i ben,
pan fydd Santa 'di throi hi am adre
a'r goeden yn ddim byd ond pren.

Pan fo'r tinsel yn saff yn yr atic
yn angof mewn dau neu dri blwch,
y cyfarchion a'r cardie 'di llosgi
ac ysbryd yr Ŵyl yn hel llwch.

Bryd hynny y mae angen angylion
i dorchi'u hadenydd go iawn,
a bryd hynny mae angen lletywr
all 'neud lle er bo'r llety yn llawn.

Yr un pryd mae galw am fugail
i warchod y defaid i gyd,
fel mae galw am ddoethion a seren
i egluro tywyllwch y byd.

Mae 'na alw am gast drama'r geni
drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,
am fod gwaith y Nadolig yn anodd –
yn ormod o waith i un dydd.

Mererid Hopwood

Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: Vernon Jones, Gaerwen, Bow St (01970 828344)

Is-gadeirydd: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug,
Capel Seion (01970 880489)

Ysgrifennydd: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth,
SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 13 Mawrth:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel, Bow St

(01970 828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn, Bow St

(01970 828662)

marian_hughes@btinternet.com

